



Adam Price AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Adam.Price@senedd.wales

Cyfeirnod: WQ95640

3 Mawrth 2025

Annwyl Adam

Mewn perthynas â WQ95640, nid yw'r darpariaethau canlynol a gynhwysir mewn Deddfau a basiwyd yn ystod tymor y Senedd hon wedi eu cychwyn eto gan Lywodraeth Cymru:

Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024

Fel y nodwyd yn ystod y broses graffu ac yn nogfennau ategol y bil, rydym wedi penderfynu gweithredu'r Ddeddf hon fesul cam, gan gynnwys pŵer i gychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf drwy orchymyn i alluogi eu dwyn i rym, fel y bydd gan y gymuned etholiadol amser digonol i gynllunio ar gyfer gweithredu cyn i'r newidiadau ddod i rym. Wrth ddatblygu'r Ddeddf, roeddem yn ymwybodol o'r angen i weithredu diwygiadau mewn da bryd cyn etholiadau nesaf y Senedd a'r etholiadau llywodraeth leol nesaf sydd wedi eu hamserlennu ar gyfer 2026 a 2027 yn y drefn honno, gan hefyd barchu confensiwn Gould sy'n argymhell o leiaf chwe mis rhwng gwneud deddfwriaeth a dechrau unrhyw etholiad y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arno.

- Adran 3.
- Adran 4.
- Adran 24.
- Adran 64.
- Adran 27 (a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2025 yn unol ag O.S. 2024/1337 (Cy. 226) (C. 81)).
- Adrannau 56-60 (a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2025 yn unol ag O.S. 2024/1337 (Cy. 226) (C. 81)).
- Adran 65 (a ddaw i rym ar 6 Mai 2027 yn unol ag adran 72(3) o'r Ddeddf).
- Pennod 2 o Ran 2 (a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2025 o dan O.S. 2024/1337)

Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae adrannau 16, 17 a 18 yn gwneud newidiadau i'r gyfundrefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol bresennol ac mae adrannau 19, 20 ac 21, ac Atodlen 1, yn gwneud newidiadau i'r gyfundrefn Rheoli Mwg bresennol. Mae'r ddwy gyfundrefn hyn yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol, felly, yn ystod proses graffu'r Ddeddf, gwnaethom ymrwymo i ddiweddarau'r canllawiau perthnasol yn sgil y newidiadau deddfwriaethol wrth gychwyn y darpariaethau. Bydd yr ymgynghoriad ar ganllawiau wedi eu diweddarau ar gyfer awdurdodau lleol yn cau ar 7 Mawrth 2025. [Canllawiau rheoli ansawdd aer lleol a rheoli mwg \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#). Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, byddwn yn cychwyn y darpariaethau hyn ochr yn ochr â chyhoeddi'r canllawiau terfynol yn yr haf.

Mae adran 7 yn ymwneud â monitro targedau a wneir o dan y Ddeddf. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu targed PM_{2.5} ac yn bwriadu cychwyn y ddarpariaeth hon i gyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol a ddaw i rym. Mae rheoliadau mewn perthynas â PM_{2.5} yn ofynnol erbyn mis Chwefror 2027.

- Adran 7
- Adran 16
- Adran 17
- Adran 18
- Adran 19
- Adran 20
- Adran 21
- Atodlen 1

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024

Daw adran 6 i rym ar 1 Ebrill 2025, i gyd-fynd â dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer newidiadau i gymhwysra ar gyfer y rhyddhad ardrethi annomestig perthnasol. Mae'n arferol i newidiadau o'r fath gyd-fynd â blwyddyn ariannol newydd.

Daw adrannau 10 ac 11 i rym ar 1 Ebrill 2025, i gyd-fynd â dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r adrannau hyn yn darparu ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer Cymru, gan gynnwys ailddatgan pwerau presennol ar gyfer Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau mewn perthynas â gosod y lluosydd (yn ogystal â chynnwys pwerau newydd i ragnodi lluosyddion gwahaniaethol) drwy reoliadau. Gan nad oedd yn hysbys pryd y byddai'r Cydsyniad Brenhinol yn digwydd, gosodwyd amseriad y cychwyn i sicrhau na fyddai ailddatgan y pwerau presennol yn ymyrryd â gosod y lluosydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

Bydd adran 12 yn cael ei chychwyn drwy offeryn statudol. Bydd yr adran hon yn gosod dyletswydd newydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisiol, gan ddefnyddio gwasanaeth ar-lein sydd i gael ei ddarparu at y diben hwnnw. Bydd y ddyletswydd yn dod i rym dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth wedi eu bodloni y gellir disgwyl yn rhesymol i dalwyr ardrethi gydymffurfio â hi drwy'r gwasanaeth a ddarperir, unwaith y bydd wedi ei ddatblygu a'i brofi'n llawn. Gwnaed yr ymrwymiad hwn yn ystod ymgynghoriad ar y cynigion polisi cysylltiedig ac fe'i hailadroddwyd yn ystod proses graffu'r Ddeddf.

Bwriedir cychwyn adrannau 18 a 19, sy'n ymwneud â disgowntiau a gostyngiadau yn y dreth gyngor, yn 2026 a 2027, yn amodol ar ymgynghoriadau yn y dyfodol ar gynigion sydd wrthi'n cael eu hadolygu.

- Adran 6
- Adran 10

- Adran 11
- Adran 12
- Adran 18 (sylwer ei bod wedi ei chychwyn yn rhannol – paragraffau (2)(c) a (5) yn unig at ddibenion penodol)
- Adran 19
- Rhan 4 o'r Atodlen
- Rhan 5 o'r Atodlen (sylwer ei bod wedi ei chychwyn yn rhannol – paragraff 13(3)(b) yn unig)

Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

Cafodd Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 y Cydsyniad Brenhinol ar 3 Mehefin 2024. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad ar y weithdrefn ymgynghori cyn gwneud cais a ffioedd ar gyfer y broses gydsynio rhwng 13 Mai 2024 a 22 Gorffennaf 2024. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 4 Medi 2024. Cyhoeddwyd y prif bapur ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r Ddeddf ar 19 Medi 2024 a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Rhagfyr 2024. Mae dadansoddiad gan swyddogion o'r ymatebion yn llywio'r cynigion terfynol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf.

Gan ddibynnu ar ganlyniad y dadansoddiad hwnnw a chymeradwyaeth y Senedd ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, rhagwelir y byddwn yn newid i'r system newydd yn ddiweddarach eleni.

Cychwynnodd y Ddeddf:

- Ran 1;
- darpariaethau Rhannau 2 i 8 sydd—
- yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau, neu
- yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn y caniateir (a'r hyn na chaniateir) ei wneud wrth arfer pŵer i wneud rheoliadau;
- Rhan 9, ac eithrio adran 145.

Mae pob adran arall heb ei chychwyn eto.

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae adrannau 9 a 10 o Ran 1 yn galluogi sefydlu'r is-grŵp caffael, gan gynnwys ei gworwm a'i weithdrefnau. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn ymwneud â'r dyletswyddau Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol a'r gofynion adrodd blynyddol.

Yn ystod y broses graffu ac ers hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi pwysleisio'n gyson y bydd amser rhagarweiniol sylweddol cyn y gall y darpariaethau hyn gychwyn. Diben hynny yw galluogi ymgynghori priodol â phartneriaid cymdeithasol, awdurdodau contractio, ac eraill ar ddatblygu'r canllawiau a'r rheoliadau statudol angenrheidiol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dweud yn fynych fod disgwyl i'r darpariaethau hyn ddod i rym naill ai erbyn diwedd 2025 neu'n gynnar yn 2026 fan bellaf.

- Adran 9
- Adran 10
- Rhan 3
- Adran 43
- Adran 44
- Adran 45
- Atodlen 1

- Atodlen 2

Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cychwyn y gwaharddiadau ar y tri chynnyrch plastig untro sy'n weddill (bagiau siopa plastig untro, caeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynhwysyddion cludfwyd a chynhyrchion a wnaed o blastigau ocsio-ddiraddiadwy) erbyn mis Mai 2026. Darparwyd cyfnod cychwyn hwy ar gyfer y cynhyrchion hyn er mwyn sicrhau y darperir amser digonol i fusnesau i nodi a chaffael cynhyrchion amgen addas. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddiweddarau'r Asesiadau Effaith Economaidd presennol ar gyfer y cynhyrchion hyn cyn y gwaharddiadau.

- Paragraff 1 o'r Atodlen. Cofnodion yng nghlofn 1 a cholofn 2 o'r Tabl ar gyfer "caeadau ar gyfer cwpanau neu gynhwysyddion cludfwyd", "bagiau siopa" ac "unrhyw gynnyrch a wnaed o gynnyrch plastig ocsio-ddiraddiadwy".

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

Gan darddu o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, ni chychwynnwyd y ddarpariaeth erioed oherwydd datgelodd ymchwil a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid y byddai wedi bod yn ddatgymhelliad pwerus i berchnogion sydd am achub adeiladau rhestredig sydd mewn perygl.

- Adran 147

Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

Seiliwyd dull gweithredu'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil a dull sefydlu'r Comisiwn (o'r enw Medr) ar set o egwyddorion a blaenoriaethau craidd y cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd arnynt ddiwedd mis Mehefin 2022. Dyma'r egwyddorion:

- sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer y sector heb amharu mewn ffordd amlwg ar ddarparwyr na dysgwyr wrth i'r Comisiwn gael ei sefydlu.
- osgoi rhoi baich diangen ar ddarparwyr yn ystod y cyfnod gweithredu.
- creu Comisiwn gweithredol yn gynnar, o fewn y cyfyngiadau o ganlyniad i'r uchod, yw'r flaenoriaeth.
- sicrhau bod cyfres gadarn o ddarpariaethau deddfwriaethol yn cael ei darparu.

Mae gweithredu mewn ffordd raddol hefyd wedi caniatáu i Lywodraeth Cymru a Medr gydweithio â'i gilydd ac â'r sector Addysg Drydyddol i sicrhau y gwneir y mwyaf o'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud.

Mae'r gwaith gweithredu wedi bod yn mynd rhagddo drwy wneud nifer o Orchmynion cychwyn hyd yn hyn:

- darparodd Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022 ar gyfer creu'r Comisiwn fel endid cyfreithiol, a chychwynnodd y ddarpariaethau angenrheidiol i benodi ei aelodau, ynghyd â ddarpariaethau cysylltiedig eraill,
- darparodd Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023 ar gyfer dwyn i rym, yn rhannol ac yn llawn, ddarpariaethau yn y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar gyfer mis Medi 2023 a mis Ebrill 2024.

- darparodd Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 3) 2023 ar gyfer dwyn i rym bŵer gwneud rheoliadau a hepgorwyd o'r ail Orchymyn cychwyn ac fe'i gwnaed ym mis Hydref 2023, a
- darparodd Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2024 ar gyfer diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a galluogodd Medr i ddechrau ymgymryd â chyfrifoldeb am ei swyddogaethau. Gwnaed y Gorchymyn hwn ym mis Gorffennaf 2024 cyn i Medr ddod yn weithredol ar 1 Awst 2024.

Bydd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn gwneud Gorchymyn Cychwyn pellach ym mis Ebrill 2025 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyfer y Gorchymynion sy'n weddill, ac offerynnau statudol cysylltiedig, sy'n angenrheidiol i weithredu'r Ddeddf yn llwyr.

- Adran 26
- Adran 29
- Adran 37
- Adran 38
- Adran 39
- Adran 40
- Adran 42
- Adran 44
- Adran 45
- Adran 48
- Adran 49
- Adran 51
- Adran 52
- Adran 53
- Adran 55
- Adran 56
- Adran 58
- Adran 59
- Adran 60
- Adran 61
- Adran 62
- Adran 64
- Adran 65
- Adran 66
- Adran 67
- Adran 68
- Adran 69
- Adran 70
- Adran 71
- Adran 72
- Adran 73
- Adran 74
- Adran 75
- Adran 76
- Adran 77
- Adran 78
- Adran 79
- Adran 80
- Adran 81
- Adran 82

- Adran 90
- Adran 91
- Adran 92
- Adran 93
- Adran 95
- Adran 96
- Adran 98
- Adran 99
- Adran 100
- Adran 102
- Adran 106
- Adran 107
- Adran 108
- Adran 109
- Adran 110
- Adran 111
- Adran 112
- Adran 113
- Adran 114
- Adran 115
- Adran 116
- Adran 117
- Adran 118
- Adran 119
- Adran 120
- Adran 121
- Adran 122
- Adran 123
- Adran 124
- Adran 125
- Adran 126
- Adran 127
- Adran 128
- Adran 129
- Adran 133
- Adran 134
- Adran 137
- Adran 138
- Atodlen 3
- Paragraffau 1, 4, 9, 10, 11, 13, 16, 17, 21, 23, 26, 29, 30, 35, 39 o ATODLEN 4

Rhestr o ddarpariaethau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 sydd heb eu cychwyn yn llawn eto (h.y. wedi eu cychwyn yn rhannol yn unig):

Gorchymynion Cychwyn perthnasol:

- Gorchymyn Cychwyn Rhif 1 (GC Rhif 1) O.S. 2022/1318
- Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 (GC Rhif 2) O.S. 2023/919
- Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 (GC Rhif 3) O.S. 2023/1106
- Gorchymyn Cychwyn Rhif 4 (GC Rhif 4) O.S. 2024/806

Adrannau sydd mewn grym yn rhannol (ac i ba raddau)	
6	-Is-adran (1)(a) (hybu gwaith ymchwil ac arloesi), at ddibenion llunio cynllun strategol o dan adran 14 (ond nid fel bod y ddyletswydd o dan

	adran 6(1)(a) yn cael ei dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(2). -Mae is-adran (1) mewn grym yn llawn – GC Rhif 4, erth. 2(a). -Mae is-adran (2) mewn grym yn ddarostyngedig i ddarpariaeth ddarfodol sy'n ymwneud ag ystyr 'person perthnasol' sy'n gymwys hyd nes y daw adran 105 i rym – GC Rhif 4, erth. 4.
25	-Is-adran (7) mewn grym – GC Rhif 2, erth. 2(j). -Is-adrannau (1), (4), (6)(a) a (6)(b) (i'r graddau y mae'n ymwneud ag is-adrannau (4) a (5)), mewn grym at ddibenion adran 25(7) (ond nid fel bod unrhyw ddyletswyddau o dan yr is-adrannau hynny yn cael eu dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(m). -Is-adran (4)(d), at ddibenion adran 27(2) (amodau cofrestru cychwynnol) (ond nid fel bod y ddyletswydd o dan adran 25(4)(d) yn cael ei dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(n). -Is-adran (9)(a) a (10) (i'r graddau y mae is-adran (10) yn ymwneud ag is-adran (9)(a)) – GC Rhif 2, erth. 3(o). -Yr adran gyfan mewn grym at ddibenion gwneud rheoliadau – GC Rhif 2, erth. 3(l).
27	-Yr adran gyfan mewn grym at ddibenion gwneud rheoliadau – GC Rhif 2, erth. 3(p). -Is-adrannau 27(1), (2) ac (8), mewn grym at ddibenion galluogi'r Comisiwn i lunio'r ddogfen y cyfeirir ati yn adran 27(2) (ond nid fel bod y ddyletswydd o dan adran 27(2) yn cael ei dwyn i rym – GC Rhif 2, erth. 3(g)).
28	-Is-adrannau (1) i (3) mewn grym at ddibenion galluogi'r Comisiwn i gymryd camau tuag at benderfynu'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol yn unol ag adran 28(1) (ond nid fel bod y ddyletswyddau o dan adran 28(1) yn cael eu dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(r).
30	-Is-adran (1) mewn grym – GC Rhif 2, erth. 2(k).
31	-Is-adrannau (1)(a) i (f), (i), (j) a (2) mewn grym at ddibenion galluogi'r Comisiwn i gymryd camau tuag at benderfynu'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol yn unol ag adran 28(1) (ond nid fel bod y ddyletswydd o dan adran 31(1) yn cael ei dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(s).
32	-Yr adran gyfan mewn grym at ddibenion gwneud rheoliadau ac at ddibenion galluogi'r Comisiwn i gymryd camau tuag at benderfynu'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol yn unol ag adran 28(1) (ond nid fel bod unrhyw ddyletswyddau o dan adrannau 32 a 33 yn cael eu dwyn i rym) – GC Rhif 2, erthyglau 3(t) a 3(u).
33	-Mewn grym at ddibenion galluogi'r Comisiwn i gymryd camau tuag at benderfynu'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol yn unol ag adran 28(1) (ond nid fel bod unrhyw ddyletswyddau o dan adrannau 32 a 33 yn cael eu dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(u).
35	-Mewn grym at ddibenion galluogi'r Comisiwn i lunio canllawiau ar gyfer darparwyr cofrestredig ynghylch amodau cofrestru parhaus (ond nid fel bod y ddyletswydd o dan yr adran honno yn cael ei dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(v).
36	-Mewn grym at ddibenion galluogi'r Comisiwn i gymryd camau tuag at benderfynu sut y bydd yn monitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus gan ddarparwyr cofrestredig (ond nid fel bod y ddyletswydd o dan yr adran honno yn cael ei dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(w).
41	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 3(x).
43	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 3(y).
47	-Is-adrannau (1) i (5) mewn grym at ddibenion galluogi'r Comisiwn i

	gymryd camau tuag at benderfynu'r amod terfyn ffioedd yn unol ag adran 32(3)(a) a'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol yn unol ag adran 28(1) (ond nid fel bod unrhyw ddyletswyddau o dan adran 47(2) na (4) yn cael eu dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(z).
50	-Adran 50(1) i (3), (4)(b) ac (c), (7) ac (8) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(c). -Adran 50(4)(a) mewn grym yn ddarostyngedig i addasiadau sy'n ymwneud â'r cyfeiriad at 'darparwr cofrestredig' tan 31/07/26 – GC Rhif 4, erth. 5.
54	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 3(aa).
57	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 3(bb).
83	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 3(cc).
84	-Mewn grym ac eithrio'r diffiniad o 'ffioedd uwchlaw'r terfyn' – GC Rhif 2, erth. 3(dd).
86	-Adran 86(2), (3) a (7) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(d). -Adran 86(4) mewn grym yn ddarostyngedig i addasiadau hyd nes y daw adran 105 i rym – GC Rhif 4, erth. 7. -Adran 86(1), (5) a (6) mewn grym yn ddarostyngedig i ddarpariaethau darfodol hyd nes y daw paragraff 6(3)(c) o Atodlen 4 i'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil i rym – GC Rhif 4, erth. 6.
87	-Is-adran (2) mewn grym – GC Rhif 2, erth. 2(o). -Is-adrannau (1) a (5) mewn grym, ac eithrio'r cyfeiriadau at adrannau 88 a 105 yn is-adran (5), at ddibenion llunio datganiad o dan adran 87(1) (ond nid fel bod y ddyletswydd o dan yr adran honno yn cael ei dwyn i rym) – GC Rhif 2, erth. 3(ee).
88	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 3(ff).
89	-Is-adrannau (1) a (2) mewn grym – GC Rhif 2, erth. 2(p). -Is-adrannau (3) i (5) mewn grym, at ddibenion llunio datganiad o dan adran 87 – GC Rhif 2, erth. 3(gg).
94	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 5.
97	-Mewn grym at ddibenion llunio datganiad o dan adran 87 – GC Rhif 2, erth. 3(hh).
101	-Mewn grym at ddibenion llunio datganiad o dan adran 87 – GC Rhif 2, erth. 3(ii).
103	-Mewn grym at ddibenion llunio datganiad o dan adran 87 – GC Rhif 2, erth. 3(jj).
104	-Mewn grym at ddibenion llunio datganiad o dan adran 87 – GC Rhif 2, erth. 3(kk).
105	-Mewn grym dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno – GC Rhif 2, erth. 3(ll).
131	-Is-adran (1), (2)(c) a (d), (4) a (5) mewn grym yn llawn – GC Rhif 4, erth. 2(e). -Is-adran (3)(a) mewn grym i'r graddau y mae'n ymwneud â pherson a grybwyllir yn is-adran (2)(c) a (d) – GC Rhif 4, erth. 3(b). -Is-adran (6) mewn grym i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 131(2)(a), (aa), (b)(viii), (c) a (d) – GC Rhif 4, erth. 3(b). -Is-adran 2(a) a (b)(viii) mewn grym yn ddarostyngedig i addasiadau sy'n ymwneud â'r cyfeiriadau at 'darparwr cofrestredig' tan 31/07/26 – GC Rhif 4, erth. 16.
132	-Is-adrannau (1)(a) i (e), (g) i (k) a (2) mewn grym – GC Rhif 2, erth.

	2(r).
139	Is-adrannau (1), (2) a (4) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(h).

Atodlenni mewn grym yn rhannol	
Y paragraffau a ganlyn o ATODLEN 1:	
16	-Paragraff 16(1)(b) a (3) i (5) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 14(a). -Paragraff 16(1)(a) mewn grym yn ddarostyngedig i addasiad darfodol hyd nes y daw paragraff 31 o Atodlen 4 i rym yn llawn – GC Rhif 4, erth. 15.
17	-Paragraff 17(1) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 14(b).
Y paragraffau a ganlyn o ATODLEN 4:	
3	-Is-baragraff (1) a (2)(b) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(ii).
6	-Paragraff 6(1), (2), (3)(e) ac (g), (5)(a) a (7) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(iv). -Paragraff 6(3)(b) mewn grym i'r graddau y mae'n hepgor adran 62(1), (3), (4) a (9) o Ddeddf 1992 – GC Rhif 4, erth. 3(c)(i). -Paragraff 6(3)(f) mewn grym i'r graddau y mae'n hepgor adran 69(1) a (3) i (7) o Ddeddf 1992 – GC Rhif 4, erth. 3(c)(ii). -Paragraff 6(6) mewn grym i'r graddau y mae'n hepgor y cofnod ar gyfer "the HEFCW" yn adran 92 o Ddeddf 1992 – GC Rhif 4, erth. 3(c)(iii).
7	-Paragraff 7(1) i (3), (4)(a)(iii) a (iv) a (b) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(v).
8	-Paragraff 8(1), (3), (4) a (7) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(vi).
12	-Paragraff 12(1), (2)(a)(ii) a (iii), (3) a (4) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(vii). -Paragraff 12(2)(a)(i) mewn grym yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol – GC Rhif 4, erth. 11. -Paragraff 12(2)(b) mewn grym yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol – GC Rhif 4, erth. 12.
14	-Paragraff 14(1), (24) a (26) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(viii). -Paragraff 14(27) mewn grym yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol – GC Rhif 4, erth. 13.
15	-Paragraff 15(1), (3) a (5) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(ix).
18	-Paragraff 18(1), (6), (8), (9)(a) ac (c) a (10) i (13) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(x).
19	-Paragraff 19(1) a (2)(a) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(xi).
20	-Is-baragraffau (1) a (2)(a) mewn grym – GC Rhif 2, erth. 2(x)(i) a (ii). -Is-baragraff (2)(b) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(xii).
22	-Paragraff 22(1) a (3) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(xiii).
25	-Paragraff 25(1) a (3) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(xiv).
31	Mewn grym i'r graddau y mae'n hepgor y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2015— -adrannau 25, 49, 50(5) i (7), 51 a 53 – GC Rhif 4, erth. 3(c)(iv)(aa); -paragraffau 2, 5 a 7 i 26 yn Rhan 1 o'r Atodlen – GC Rhif 4, erth. 3(c)(iv)(bb) a; -Rhan 2 o'r Atodlen – GC Rhif 4, erth. 3(c)(iv)(cc).
33	-Paragraff 33(1), (2)(b) ac (e) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(xvii). -Paragraff 33(2)(c) a (d) mewn grym i'r graddau y maent yn hepgor y geiriau "a CCAUC" ac yn rhoi "a'r Comisiwn" yn ei le – GC Rhif 4, erth. 3(c)(v) a 3(c)(vi).
38	-Paragraff 38(1) mewn grym – GC Rhif 4, erth. 2(k)(xxi). -Paragraff 38(2) mewn grym i'r graddau y mae'n hepgor paragraffau 7, 8, 11, 17, 18(2), (3) a (5) i (7), 20, 25 a 26(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 – GC Rhif 4, erth. 3(c)(vii).

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery